



CPS

**Canllawiau ar gyfer erlynwyr
er asesu budd y cyhoedd mewn
achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau**

Medi 2012

**Canllawiau ar gyfer erlynwyr er asesu budd y cyhoedd mewn
achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau**

**Cyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
ar 13 Medi 2012**

Rhagarweiniad

1. Mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn cael eu cydnabod a'u diogelu dan y gyfraith gyffredin a chan *Ddeddf Hawliau Dynol* 1998. Mae'n ofynnol felly fod erlynwyr yn rhoi ystyriaeth i'r hawliau hyn wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar arfer yr hawliau hyn.
2. Mae'r canllawiau hyn yn pennu'r ymagwedd y dylai erlynwyr ei dilyn wrth ymwneud â phenderfyniadau o'r fath ble maent yn effeithio ar y cyfryngau ac, yn benodol, sut dylai erlynwyr ymdrin â'r cwestiwn a yw erlyniad yn ofynnol er budd y cyhoedd. Eu bwriad yw rhoi cyngor clir i erlynwyr y gofynnwyd iddynt un ai am benderfyniadau cyhuddo neu am gyngor buan i'r heddlu neu i ymchwilwyr eraill yn yr achosion sensitif ac anodd hyn. Trwy gadw at y canllawiau hyn gellir sicrhau ymdriniaeth gyson ar draws y CPS. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymdrin â thorri cyfyngiadau ar ohebu na dirmyg llys, yr ymdrinnir â hwy mewn canllawiau a pholisïau eraill.
3. Mae'r canllawiau hyn yn debygol o fod yn berthnasol pan fydd erlynwyr yn ystyried a ddylid cyhuddo newyddiadurwyr o gyflawni troseddau a allai fod wedi'u cyflawni wrth iddynt wneud eu gwaith fel newyddiadurwyr. Maent hefyd yn debyg o fod yn berthnasol pan fydd erlynwyr yn ystyried a ddylid cyhuddo pobl eraill a allai fod wedi rhyngweithio â newyddiadurwyr a hynny wedi cynnwys cyflawni trosedd.
4. Mae'n bwysig fod erlynwyr yn ymwybodol nad yw newyddiadurwyr na'r rhai sy'n rhyngweithio â hwy yn cael statws arbennig dan gyfraith trosedd. Mae'r Côt ar gyfer Erlynwyr y Goron, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac sy'n llywodraethu penderfyniadau'r CPS, yn berthnasol i newyddiadurwyr a'r rhai sy'n rhyngweithio â hwy yn yr un ffordd ag y mae'n berthnasol i bawb arall.

5. Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle'r canllawiau interim a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill 2012 ac maent yn dod i rym ar unwaith.

Egwyddorion cyffredinol

6. Ni all erlynwyr ddechrau erlyn oni bai fod achos yn bodloni'r prawf a bennir yn y Côt ar gyfer Erlynwyr y Goron. Mae dau gam yn perthyn i'r prawf: y cyntaf yw'r gofyniad bod digon o dystiolaeth ac mae'r ail yn ymwneud ag ystyried budd y cyhoedd.
7. O ran y cam tystiolaethol, rhaid i erlynnydd fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn. Mae hyn yn golygu bod rheithgor gwrthrychol, diduedd a rhesymol (neu fainc o ynadon neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun), a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol ac sy'n gweithredu yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o euogfarnu. Mae'n brawf gwrthrychol sy'n seiliedig ar asesiad yr erlynnydd o'r dystiolaeth (gan gynnwys unrhyw wybodaeth sydd ganddo ef neu hi am yr amddiffyniad).
8. Os nad yw achos yn bodloni'r cam tystiolaethol rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu sensitif ydyw.
9. Ni fu erioed yn rheol y bydd erlyniad yn digwydd yn awtomatig unwaith y bydd y cam tystiolaethol wedi'i fodloni. Ym mhob achos ble mae digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyn, rhaid i erlynwyr wedyn fynd ati i ystyried a yw erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd.
10. Rhaid i bob achos gael ei ystyried ar sail ei ffeithiau unigol ei hun ac yn ôl ei deilyngdod ei hun. Ni ellir byth roi imiwnedd arfaethedig rhag erlyniad troseddol ac ni ddylid darllen unrhyw beth yn y canllawiau hyn i awgrymu'n groes.
11. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, ni ddylai erlynwyr benderfynu a ddylid erlyn ai peidio nes bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, fe fydd achosion ble bydd yn glir, cyn casglu ac ystyried yr holl dystiolaeth debygol, nad yw budd

y cyhoedd yn mynnu erlyn. Yn yr achosion hyn, gall erlynwyr benderfynu na ddylai'r achos fynd ymhellach.

Egwyddorion Cymhwysiad Arbennig Mewn Achosion Sy'n Effeithio ar y Cryfryngau

12. Mewn achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau ble bydd rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth dan sylw, mae'n ofynnol bod erlynwyr yn gweithredu nifer o egwyddorion penodol yn ychwanegol at yr egwyddorion cyffredinol a roddir uchod. Felly, mewn achosion o'r fath, rhaid i erlynwyr ddilyn y Côt a rhaid iddynt hefyd ddilyn y canllawiau hyn.

13. Mae'n bwysig ar y dechrau i wahaniaethu rhwng:

(a) Budd y cyhoedd o ran rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth, a

(b) Y cwestiwn ar wahân, sef a yw erlyn er budd y cyhoedd, sef yr ail gam ym mhrawf y Côt.

Rhyddid mynegiant a'r hawl i gael a rhannu gwybodaeth

14. Mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn cael eu cydnabod a'u diogelu dan y gyfraith gyffredin a chan *Ddeddf Hawliau Dynol* 1998. Cânt eu pennu'n fwyaf clir yn Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n amodi fel hyn: "*Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Rhaid i'r hawl hon gynnwys rhyddid i arddel barnau ac i gael a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau...*".

15. Fel yr eglurodd Llys Hawliau Dynol Ewrop, mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn sail hanfodol ar gyfer cymdeithas ddemocrataidd a chan hynny rhoddir cryn bwys arnynt. Yn achos *Sunday Times v UK (Rhif 2)* [1992] 14 EHRR 123 dywedwyd bod:

"Freedom of expression constitutes one of the essential foundations of a democratic society ...it is applicable not only to "information" or

“ideas” that are favourably received or regarded as inoffensive or as a matter of indifference, but also as to those that offend, shock or disturb. Freedom of expression, as enshrined in Article 10, is subject to a number of exceptions which, however, must be narrowly interpreted and the necessity for any restrictions convincingly established.

These principles are of particular importance as far as the press is concerned. Whilst it must not overstep the bounds set, inter alia, in the “interests of national security” or for “maintaining the authority of the judiciary”, it is nevertheless incumbent on it to impart information and ideas on matters of public interest. Not only does the press have the task of imparting such information and ideas: the public has a right to receive them. Were it otherwise, the press would be unable to play its vital role of public watchdog”

16. Fodd bynnag, nid yw rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn hawliau absoliwt. Gellir cyfyngu arnynt ond ceir gwneud hynny'n unig ble gellir dangos bod cyfyngu yn:
- angenrheidiol, a
 - chymesur.

Gan fod dwyn erlyniad troseddol yn gallu cyfyngu ar yr hawliau hyn, rhaid i erlynwyr ystyried y gofynion hyn yn ofalus ym mhob achos.

Rhoi ystyriaeth i ryddid mynegiant a'r hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar y cam tystiolaethol

17. Gydag achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau, ble mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth dan sylw, gallant gwmpasu amryw o droseddau. Mae'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod dan ystyriaeth yn cael eu pennu yn Atodiad A. Ar gyfer rhai troseddau, atgoffir erlynwyr fod angen cydsyniad y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
18. Wrth ystyried y troseddau hyn, atgoffir erlynwyr mai mater i'r llysoedd yn bennaf yw dehongli'r gyfraith yn briodol a gall olygu bod y llysoedd yn ystyried, ymysg

pethau eraill: (a) hyd a lled y troseddau (b) a all unrhyw amddiffyniad ymhlyg godi a/neu (c) ystod yr atebion sydd ar gael i lys yn gyffredinol.

Amddiffyniad pendant

19. Ble darperir ar gyfer amddiffyniad pendant – er enghraifft, bod yr ymddygiad dan sylw er budd y cyhoedd – rhaid i erlynwyr ystyried unrhyw amddiffyniad budd y cyhoedd posib, a sut mae'n debygol o effeithio ar y rhagolygon o ran euogfarnu. Yn benodol, wrth ystyried pa mor ddigonol yw'r dystiolaeth, rhaid i erlynwyr fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth ddibynadwy, gredadwy a derbyniol i wrthbrofi unrhyw awgrym bod modd cyfiawnhau bod yr ymddygiad dan sylw er budd y cyhoedd. Os nad oes, mae'n annhebygol y bydd gobaith realistig o euogfarn ac ni fydd cam tystiolaethol prawf y Côt yn cael ei fodloni. Wrth ystyried amddiffyniad pendant, mae'r materion a bennir ym mharagraffau 31-35 isod yn debyg o fod yn berthnasol.
20. Fe geir enghraifft o amddiffyniad budd y cyhoedd pendant yn adran 55 *Deddf Diogelu Data* 1998, sy'n creu trosedd o gael, datgelu neu gaffael data personol. Mae adran 55(2)(d) yn rhoi amddiffyniad, sef: "*yn yr amgylchiadau penodol fod y cael, y datgelu neu'r caffael wedi'i gyfiawnhau gan ei fod er budd y cyhoedd*". Mae adran 59 yn cynnwys darpariaeth debyg mewn perthynas â'r trosedd y mae'n ei greu.

Achosion ble nad oes amddiffyniad budd y cyhoedd pendant

21. Ymysg y troseddau sydd fwyaf tebygol o fod dan ystyriaeth (gweler Atodiad A), y mae nifer heb amddiffyniad budd y cyhoedd pendant. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i erlynwyr ganfod a yw'r llysoedd eisoes wedi rhoi canllawiau clir o ran y ffordd briodol o ddehongli unrhyw droseddau y gallant fod yn eu hystyried. Os rhoddwyd canllawiau o'r fath, rhaid i erlynwyr eu dilyn.
22. Er bod darpariaethau *Deddf Cyfrinachau Swyddogol* 1989 wedi'u hanelu'n bennaf at unigolion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf neu weision y Goron, gallent fod yn berthnasol pan fydd erlynwyr yn ystyried achosion sy'n ymwneud â newyddiadurwyr neu'r rhai sy'n rhyngweithio â hwy. Mae'r gyfraith gyffredin yn darparu ar gyfer cyfranogiad eilaidd mewn troseddu adrannau 44 i 46 *Deddf Troseddu Difrifol* 2007 yn creu troseddau o fynd ati'n fwriadol i annog neu

gynorthwyo trosedd; annog neu gynorthwyo trosedd gan gredu y bydd yn cael ei gyflawni; ac annog neu gynorthwyo troseddau gan gredu y bydd un neu fwy yn cael eu cyflawni.

23. Mae'r Llysoedd wedi rhoi canllawiau clir nad yw budd y cyhoedd yn gymwys neu mai prin y mae'n gymwys mewn perthynas ag adrannau 1(1)(a) a 4(1) a (3)(a) *Deddf Cyfrinachau Swyddogol* 1989 (*R v Shayler* [2002] UKHL 11). Felly dylai erlynwyr fwrw ymlaen ar y sail nad oes amddiffyniad budd y cyhoedd ar gael i rywun dan amheuaeth sy'n cael ei gyhuddo dan yr adrannau hyn.
24. Rhoddwyd canllawiau clir gan y llysoedd hefyd am yr ymagwedd briodol tuag at drosedd cyfraith gyffredin camymddwyn mewn swydd gyhoeddus. Yn AG's *Reference No.3 of 2003* [2004] EWCA Crim 868, fe eglurodd y Llys Apêl nad yw pob gweithred o gamymddwyn gan swyddog cyhoeddus yn gallu bod yn gyfystyr â throsedd. Er mwyn arwain at gosbau troseddol, fel arfer byddai'n rhaid i'r camymddwyn dan sylw fod yn gyfystyr â sarhau enw da y swydd gyhoeddus a ddelir, a syrthio islaw'r safonau derbyniol fel ei fod yn gyfystyr â charmarfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd. Bydd yn rhaid i erlynwyr ystyried yn ofalus a yw ymddygiad sydd er budd y cyhoedd yn gallu cyrraedd y trothwy uchel hwnnw. Eto, er nad yw trosedd camymddwyn mewn swydd gyhoeddus wedi'i anelu'n bennaf at newyddiadurwyr, fe allai y gyfraith gyffredin ar gyfranogiad eilaidd ac adrannau 44 i 46 *Deddf Troseddu Difrifol* 2007 fod yn gymwys.
25. Ble na cheir amddiffyniad budd y cyhoedd pendant mewn deddfwriaeth ac nad yw'r llysoedd eto wedi rhoi canllawiau clir ar y ffordd briodol o ddehongli'r troseddau dan ystyriaeth, efallai mai'r peth gorau i erlynwyr ei wneud yw rhoi'r ffeithiau a'r materion perthnasol gerbron llys i'w hystyried (gan dybio bod cam tystiolaethol prawf y Côt wedi'i fodloni fel arall). Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, dylai erlynwyr fynd ymlaen i ystyried y cwestiwn ar wahân, sef a yw erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd, h.y. ail gam prawf y Côt.

Rhoi ystyriaeth i ryddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth yn ystod cam budd y cyhoedd

26. Fel y nodir uchod, dan y Côt ar gyfer Erlynwyr y Goron, ble ceir digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i ystyried a yw erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd.
27. Mae'r Côt yn nodi nifer o ffactorau cyffredinol y mae'n rhaid eu hystyried ym mhob achos wrth ystyried a yw erlyn er budd y cyhoedd. Dylid eu cymhwyso yn y ffordd arferol mewn achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau ble mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth dan sylw.
28. Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau budd y cyhoedd a nodir yn y Côt yn ddi-ben-draw. Wrth ystyried achosion sy'n effeithio ar y cyfryngau ble mae rhyddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth dan sylw, dylai erlynwyr fynd ati'n benodol i ystyried:

A yw budd y cyhoedd a wasanaethir gan yr ymddygiad dan sylw yn drech na'r troseddoldeb cyffredinol?

29. Mae hwn yn debyg o fod yn gwestiwn allweddol. Os mai'r ateb iddo yw 'ydyw', mae'n llai tebygol y bydd yn ofynnol erlyn er budd y cyhoedd.
30. Wrth asesu a yw *budd y cyhoedd a wasanaethir gan yr ymddygiad dan sylw yn drech na'r troseddoldeb cyffredinol* dylai erlynwyr ddilyn yr ymagwedd a bennir isod. Mae'n broses tri cham: (1) asesu budd y cyhoedd a wasanaethir gan yr ymddygiad dan sylw; (2) asesu'r troseddoldeb yn gyffredinol; a (3) pwysu a mesur y ddwy ystyriaeth hyn.

(1) Asesu budd y cyhoedd a wasanaethir.

31. Ni yw budd y cyhoedd a wasanaethir gan ryddid mynegiant a'r hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth erioed wedi cael ei ddiffinio yn gyfreithiol. Fodd bynnag, dyma enghreifftiau o ymddygiad sy'n gallu gwasanaethu budd y cyhoedd:

(a) Ymddygiad sy'n gallu datgelu bod trosedd wedi'i gyflawni, yn cael ei gyflawni, neu'n debygol o gael ei gyflawni.

(b) Ymddygiad sy'n gallu datgelu bod person wedi methu, yn methu, neu'n debygol o fethu cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y mae ef neu hi yn ddarostyngedig iddi.

(c) Ymddygiad sy'n gallu datgelu bod camweinyddu cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

(d) Ymddygiad sy'n gallu codi neu gyfrannu at fater o drafodaeth gyhoeddus bwysig. Nid oes diffiniad di-ben-draw o fater o drafodaeth gyhoeddus bwysig, ond mae enghreifftiau yn cynnwys trafodaeth gyhoeddus ar anwedduster difrifol, ymddygiad anfoesol sylweddol ac anghymwyster sylweddol sy'n effeithio ar y cyhoedd.

(e) Ymddygiad sy'n gallu datgelu bod unrhyw beth sy'n dod o fewn unrhyw un o'r uchod yn cael ei guddio'n fwriadol, neu'n debygol o gael ei guddio.

32. Ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn hollgynhwysfawr a gallai ffactorau eraill fod yn berthnasol mewn achos penodol. Yn yr un modd, nid yw absenoldeb unrhyw rai o'r ffactorau budd y cyhoedd a bennir uchod yn golygu o anghenraid nad yw budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu o gwbl gan yr ymddygiad dan sylw. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i deilyngdod.

(2) Asesu'r troseddoldeb cyffredinol.

33. Wrth asesu'r troseddoldeb cyffredinol, dylai erlynwyr ganolbwyntio ar yr ymddygiad dan sylw, hyd a lled y camwedd a'r niwed a achosir. Dyma enghreifftiau o ffactorau sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r asesiad:

(a) Effaith yr ymddygiad dan sylw ar y dioddefw(y)r, gan gynnwys y canlyniadau i'r dioddefw(y)r.

(b) A oedd y dioddefwr dan 18 neu mewn sefyllfa agored i niwed.

(c) Y golled a'r difrod cyffredinol a achoswyd gan yr ymddygiad dan sylw.

(d) A oedd yr ymddygiad yn rhan o batrwm ymddygiad arferol neu'n cael ei ailadrodd, neu a yw'n debygol o barhau.

(e) A oedd unrhyw elfen o lygredigaeth yn yr ymddygiad dan sylw.

(f) A oedd yr ymddygiad dan sylw yn cynnwys defnyddio bygythiadau, aflonyddu neu frawychu.

(g) Yr effaith ar unrhyw gwrs cyfiawnder, er enghraifft a beryglwyd ymchwiliad neu achos troseddol.

(h) Cymhelliad y sawl a amheuir i'r graddau y gellir canfod hynny (gallai enghreifftiau amrywio o falais neu elw ariannol ar un eithaf i gred y byddai'r ymddygiad er budd y cyhoedd ar yr eithaf arall gan gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth ar gael i'r sawl a amheuir ar y pryd).

(i) A allai'r budd y cyhoedd sydd dan sylw fod wedi'i wasanaethu cystal trwy ryw ffordd gyfreithlon gan ystyried yr holl amgylchiadau mewn achos penodol.

Unwaith eto, ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn hollgynhwysfawr a gallai ffactorau eraill fod yn berthnasol mewn achos penodol. Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i deilyngdod.

34. Mae'r cyntaf o'r ffactorau hyn – effaith yr ymddygiad dan sylw ar y dioddefw(y)r – o gryn bwysigrwydd. Mewn achosion ble tarfwyd ar breifatrwydd y dioddefwr, atgoffir erlynwyr fod preifatrwydd yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Mae Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n weithredol (fel Erthygl 10) dan *Ddeddf Hawliau Dynol* 1998, yn amodi: "*Mae gan bawb hawl i barch tuag at ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol, ei gartref a'i ohebiaeth*". Er nad yw'r hawl hwn yn absoliwt ac y gellir cyfyngu arno, ni chaniateir cyfyngu arno oni bai fod hynny'n angenrheidiol a chymesur.

35. Gall tarfu ar breifatrwydd effeithio'n arw ar ddioddefwyr a gall achosi cryn drallod iddynt. Felly ble bo modd, dylai erlynwyr sicrhau y ceir gwybodaeth am effaith benodol yr ymddygiad dan sylw ar y dioddefw(y)r, yn enwedig ble'r ymddengys bod unrhyw darfu ar breifatrwydd wedi bod yn arbennig o ymwthgar. Fodd bynnag, wrth ystyried achosion o darfu ar breifatrwydd, rhaid rhoi ystyriaeth i lefel difrifoldeb y tarfu, bydded ar y ffeithiau fod yna ddisgwyl mesur rhesymol o

breifatrwydd, a hefyd a oedd yr ymddygiad dan sylw yn gymesur i'r budd y cyhoedd yr hawliwyd iddo gael ei wasanaethu.

(3) *Gwneud penderfyniad*

36. Ar ôl nodi'r holl ffactorau perthnasol ar y ddau gam a bennir uchod, rhaid i erlynwyr fynd ymlaen i asesu a yw *budd y cyhoedd a wasanaethir gan yr ymddygiad dan sylw yn drech na'r troseddoldeb cyffredinol*. Os felly, mae'n llai tebygol y bydd erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd.
37. Atgoffir erlynwyr nad ymarferiad rhifyddol yw asesu a yw erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd, ble'r eir ati i adio nifer y ffactorau ar bob ochr cyn dod i benderfyniad yn ôl pa ochr sydd â'r nifer fwyaf. Yn hytrach, rhaid ystyried pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i deilyngdod ei hun. Mae'n eithaf posib y gallai un ffactor yn unig fod yn drech na nifer o ffactorau eraill sy'n gogwyddo i'r cyfeiriad croes. Hyd yn oed ble gellir cael nifer o ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn mewn achos penodol, dylai'r erlynnydd ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r achos ond gan dynnu sylw'r llys at y ffactorau hynny er mwyn i'r llys roi ystyriaeth briodol iddynt.
38. Dylai erlynwyr gymryd gofal arbennig mewn achosion sy'n gysylltiedig â datgelu ffynonellau newyddiadurwyr. Wrth ymdrin ag achosion o'r fath, atgoffir erlynwyr fod Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi nodi: "*Diogelu ffynonellau newyddiadurol yw un o amodau sylfaenol rhyddid y wasg ... Heb ddiogelwch o'r fath, gallai atal ffynonellau rhag cynorthwyo'r wasg wrth hysbysu'r cyhoedd ynghylch materion sydd o fudd i'r cyhoedd. O ganlyniad fe ellid tanseilio rôl hanfodol y wasg fel gwarchodwr y cyhoedd a gallai gael effaith anffafriol ar allu'r wasg i ddarparu gwybodaeth gywir a dibynadwy. Parchu pwysigrwydd diogelu ffynonellau newyddiadurol mewn cymdeithas ddemocrataidd a'r effaith dychrynlyd posibl gaiff gorchymyn defnyddio ffynhonnell ar arfer y rhyddid hwnnw, ni all mesur o'r fath fod yn gyson ag Erthygl 10 y Confensiwn oni bai bod cyfiawnhad dros hynny gan ofyniad hollbwysig er budd y cyhoedd.*" (Goodwin v UK (1996) 22 EHRR 123 paragraff 39; gweler hefyd *Ashworth Hospital Authority v MGN Ltd* [2002] 1 WLR 2003 a *Mersey Care NHS Trust v Ackroyd* [2007] EWCA Civ 101).).

39. Nid yw hynny'n golygu na ddylid byth mynd ati i erlyn ble gallai newyddiadurwyr orfod datgelu eu ffynonellau, ond y mae'n golygu bod yn rhaid i erlynwyr roi pwys ar y budd i'r cyhoedd pe diogelid ffynonellau newyddiadurwyr wrth asesu a yw budd y cyhoedd a wasanaethir gan yr ymddygiad dan sylw yn drech na'r troseddoldeb cyffredinol.
40. Atgoffir erlynwyr dan adran 10 *Deddf Dirmygu Llys* 1981, na all unrhyw lys fynnu bod person yn datgelu, nac yw unrhyw berson yn euog o ddirmyg llys am wrthod datgelu, ffynhonnell y wybodaeth a geir mewn cyhoeddiad y mae ef/hi yn gyfrifol amdano, oni bai y sefydlir er boddhad y llys ei bod yn angenrheidiol datgelu er budd cyfiawnder neu ddiogelwch gwladol neu er mwyn atal anhrefn neu drosedd.
41. Cyn cwblhau penderfyniad, dylai erlynwyr sicrhau nad yw arfer eu doethineb wrth benderfynu a yw erlyn yn ofynnol er budd y cyhoedd yn gwrthdaro ag ymagwedd y llysoedd at y troseddau penodol y buont yn eu hystyried.

Trefniadau Ymdrin

42. Daeth y canllawiau hyn i rym ar 13 Medi 2012.
43. Rhaid cyfeirio pob achos a ddaw dan y canllawiau hyn at yr Isadran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) yn y CPS a hysbysu Prif Gyngorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Atodiad A

Troseddau sydd fwyaf tebygol o gael eu cyflawni mewn achosion sy'n effeithio ar y cyfrynhga

Trosedd	Manylion	Cosb
Deddf Llwgrwobrwyo 2010 <u>Adran 1</u> (Angen Cydsyniad y DPP)	Troseddau llwgrwobrwyo person arall. Yr elfen ymddygiad yw pan fydd person "yn cynnig, yn addo neu'n rhoi" "mantais ariannol neu fantais arall".	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 2</u> (Angen Cydsyniad y DPP)	Troseddau yn ymwneud â chael ei lwgrwobrwyo. Yn cynnwys gofyn am a cytuno i dderbyn mantais ariannol neu fantais arall yn ogystal â'i derbyn mewn gwirionedd.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 <u>Adran 1</u>	Mynediad diawdurdod. Mae'r trosedd yn galw am wybodaeth bod y mynediad bwriadedig yn ddiawdurdod a bod bwriad i gael gwybodaeth am raglen neu ddata a ddelir mewn cyfrifiadur.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 2</u>	Mynediad diawdurdod gyda bwriad i gyflawni neu hwyluso cyflawni troseddau pellach.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 3</u>	Gweithredoedd diawdurdod gyda bwriad i amharu ar weithrediad cyfrifiadur, neu gyda byrbwylltra o ran amharu ar weithrediad cyfrifiadur.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 3A</u>	Gwneud, cyflenwi neu	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6

	gael erthyglau. Cosbi gwneud, cyflenwi neu gael erthyglau i'w defnyddio mewn troseddau yn groes i adrannau 1-3.	mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
Deddf Diogelu Data 1998 Adran 55 (Angen cydsyniad y DPP)	Cael neu datgelu data personol yn anghyfreithlon.	<u>Diannod:</u> dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> dirwy.
Deddf Twyll 2006 <u>Adran 1 (1)</u>	Twyll drwy gynrychiolaeth ffug	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 1 (2)</u>	Twyll drwy fethu datguddio gwybodaeth	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 1 (2)</u>	Twyll drwy gamddefnyddio swydd neu safle	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 10 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.
Adran 6	Meddiant ac ati o erthyglau i'w defnyddio mewn twyll	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.

Camymddwyn mewn swydd gyhoeddus	Swyddog cyhoeddus sy'n gweithredu fel hyn yn peidio'n fwriadol â chyflawni ei ddyletswydd a/neu yn camymddwyn yn fwriadol i'r fath raddau â bod yn gyfystyr â charnifer ymddiriedaeth y cyhoedd yn neiliad y swydd heb esgus neu gyfiawnhad rhesymol.	Ditiad: Carchar am oes a/neu ddirwy.
Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 <u>Adran 1(1)</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Datgelu heb awdurdod cyfreithlon unrhyw wybodaeth, dogfen neu eitem arall yn ymwneud â diogelwch neu gudd-wybodaeth.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 1(3)</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Gwas y Goron neu gontractiwr y llywodraeth heb awdurdod cyfreithlon yn datgelu'n andwyol unrhyw wybodaeth, dogfen neu eitem arall yn ymwneud â diogelwch neu gudd-wybodaeth sydd neu a fu yn ei feddiant yn rhinwedd ei swydd fel y cyfryw.	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 3</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Cysylltiadau rhyngwladol – datgelu dangerous heb awdurdod cyfreithlon eitem ynglun a cysylltiadau rhyngwladol	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 4</u> (Angen Cydsyniad y	Pwerau Trosedd ac Ymchwilio Arbennig: datgelu diawdurdod	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol.

DPP)	sy'n arwain at gyflawni trosedd; sy'n hwyluso dianc o ddalfa gyfreithiol neu wneud unrhyw weithred arall sy'n andwyol i bobl mewn dalfa gyfreithiol; neu sy'n rhwystro atal neu ganfod troseddau neu restio neu erlyn troseddwy'r dan amheuaeth; neu sydd o'r fath fel byddai ei ddatgelu yn ddiawdurdod yn debygol o gael unrhyw rai o'r effeithiau hynny.	<u>Ditiad</u> : 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 5</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Datgelu heb awdurdod gwybodaeth sy'n dilyn o ddatgelu diawdurdod neu a ymddiriedir yn gyfrinachol.	<u>Diannod</u> : uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad</u> : 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy
<u>Adran 6</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Datgelu heb awdurdod gwybodaeth a ymddiriedir yn gyfrinachol i Wladwriaethau eraill neu sefydliadau rhyngwladol.	<u>Diannod</u> : uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad</u> : 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 8</u> (Angen Cydsyniad y Twrnai Cyffredinol)	Dal gafael ar wybodaeth neu ddeunydd yn ddiawdurdod, neu fethu dychwelyd gwybodaeth neu ddeunydd pan orchmynnir hynny.	<u>Diannod</u> : uchafswm o 3 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod dros lefel 5 ar raddfa safonol.
Gwyrdroi Cwrs Cyfiawnder yn groes i gyfraith gyffredin	Gwneud gweithred neu gyfres o weithredoedd sydd neu sy'n dueddol o wyrddroi neu sydd neu'n bwriadu gwyrdroi cwrs cyfiawnder cyhoeddus.	<u>Ditiad</u> : Carchar am oes a/neu ddirwy.
Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997		

<u>Adran 2</u>	Aflonyddu	<u>Diannod:</u> uchafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 <u>Adran 1(1)</u> (Angen Cydsyniad y DPP)	Rhyng-gipio cyfathrebiad yn anghyfreithlon wrth iddo gael ei drosglwyddo (gwasanaeth post a systemau telathrebu cyhoeddus).	<u>Diannod:</u> Dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
<u>Adran 1(2)</u> (Angen Cydsyniad y DPP)	Rhyng-gipio cyfathrebiad yn anghyfreithlon wrth iddo gael ei drosglwyddo (system delathrebu breifat).	<u>Diannod:</u> Dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 2 flynedd o garchar a/neu ddirwy.
Deddf Troseddu Difrifol 2007 <u>Adran 44</u>	Annog / cynorthwyo trosedd yn fwriadol.	Agored i unrhyw gosb y byddai ef neu hi yn agored iddi o dderbyn euogfarn am y trosedd a ragwelir neu'r trosedd cyfeiriol.
<u>Adran 45</u>	Annog / cynorthwyo trosedd gan gredu y bydd yn cael ei gyflawni.	Agored i unrhyw gosb y byddai ef neu hi yn agored iddi o dderbyn euogfarn am y trosedd a ragwelir neu'r trosedd cyfeiriol.

<u>Adran 46</u>	Annog / cynorthwyo trosedd gan gredu y bydd y trosedd neu drosedd arall yn cael ei gyflawni.	Agored i unrhyw gosb y byddai ef neu hi yn agored iddi o dderbyn euogfarn am y trosedd a ragwelir neu'r trosedd cyfeiriol.
<u>Deddf Dwyn 1968</u> <u>Adran 1</u>	Dwyn	<u>Diannod:</u> mwyafswm o 6 mis o garchar a/neu ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol. <u>Ditiad:</u> 7 mlynedd o garchar a/ neu ddirwy

Tîm Canllawiau'r Cyfryngau
Y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi
Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS

HQ.mediaguidelines@cps.gsi.gov.uk